*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **18/12/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Gary Brandrick, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Kevin Roberts, Uwch Reolwr Diogelwch Tân** |
| Pwnc | **Ariannu'r Tîm Cymorth Cymunedol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt cynllun treialu'r Tîm Cymorth Cymunedol, sy'n ceisio cynorthwyo pobl sydd wedi cwympo gartref ac yn methu â chodi ond heb gael eu hanafu.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae cynllun treialu'r Tîm Cymorth Cymunedol yn parhau i gael canlyniadau rhagorol wrth gynorthwyo pobl sydd wedi cwympo gartref ond sydd heb gael eu hanafu. Mae'r niferoedd sy'n aros gartref heb fod angen gofal yn yr ysbyty yn parhau i fod yn uwch na 85%. Mae cais am gyllid am ddwy flynedd o Ebrill 2018 ymlaen ar gyfer darpariaeth tîm cymorth cymunedol ledled Gogledd Cymru wedi cael ei gyflwyno i'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg. Mae cyllid rhannol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol (2017-18) wedi dod drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol. Gofynnir i'r Aelodau ystyried bod y cynllun treialu yn cael ei gefnogi'n ariannol os oes angen, drwy ddarparu hyd at uchafswm o £66k hyd at ddiwedd mis Mai 2018.

## ARGYMHELLION

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r gwasanaeth a'r canlyniadau rhagorol parhaus sy'n cael eu darparu gan y tîm cymorth cymunedol.

4 Bod yr Aelodau'n nodi'r cais i'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg a'i amserlenni ar gyfer ehangu darpariaeth y tîm ledled Gogledd Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen, ynghyd â chadarnhau cyllid rhannol hyd at 31 Mawrth 2018 gan y Gronfa Gofal Canolraddol.

5 Gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r prosiect hyd at ddiwedd y contractau cyfnod penodol drwy gytuno i danategu'r costau posibl hyd at uchafswm o £66k.

## CEFNDIR

6 Yn 2016, fe wnaeth Bwrdd Rhaglenni Cydweithredol y Tri Gwasanaeth ddatblygu'r cysyniad fod GTAGC yn ymateb ar ran YGAC i roi cymorth prydlon i bobl a oedd wedi cwympo ond nad oedd wedi cael anaf. Yn ogystal â helpu pobl i godi, i dawelu eu meddyliau ac i roi cefnogaeth, cynigir archwiliad "Diogel ac Iach" iddynt, i roi cyngor am ddiogelwch y cartref a diogelwch tân.

7 Roedd costau sefydlu'r tîm a fu'n gwneud y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan £100,000 o grant a gafwyd drwy gais ar y cyd rhwng GTAGC a Galw Gofal. Roedd y tîm ei hun yn cynnwys gweithwyr cyfredol o'r GTA a gafodd eu secondio o'u swyddi cyfredol a chael hyfforddiant addas i ddarparu'r gwasanaeth. Maen nhw'n gweithio shifftiau o ddau berson i ofalu am y cyfnod rhwng 7am a 11pm, saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.

8 I ofalu am y patrwm shifftiau yma, cafodd saith o bobl eu secondio i'r Tîm Cymorth Cymunedol a oedd yn darparu un tîm i ofalu am ardal Sir Ddinbych a Chonwy.

9 Mae'r gwerthusiad o'r prosiect hwn yn dangos sut y bu'r cynllun hwn yn llwyddiant ysgubol, gan fod 375 o bobl wedi cael eu helpu gan y tîm rhwng 1af Awst 2016 a 31ain Mawrth 2017. Ar 96% o'r adegau, nid oedd angen cymorth pellach gan YGAC, ac yn fwyaf pwysig, 26 munud oedd amser ymateb y tîm ar gyfartaledd, sy'n gwrthgyferbynnu â'r amser mae ambiwlans yn ei gymryd i gyrraedd ambiwlans, sef hyd at 4 awr. Roedd hyn yn sicrhau bod y person a oedd wedi cwympo yn cael cymorth prydlon ac nad oedd ei gyflwr yn dirywio.

10 Mae nifer y digwyddiadau y mae'r tîm yn mynd atynt yn parhau i gynyddu'n ddyddiol, a chadarnhawyd ar 23 Tachwedd mai'r ffigyrau diweddaraf yw mynd at 906 o alwadau. Ar 86% o'r adegau, roedd yr unigolyn a oedd wedi cwympo wedi aros gartref heb fod angen mynd i'r ysbyty i gael triniaeth bellach.

**GWYBODAETH**

11 Nod y cynllun treialu oedd profi'r cysyniad, gyda'r nod tymor hir y dylai'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu gan ddiffoddwyr tân. Oherwydd trafodaethau cenedlaethol am ehangu rôl diffoddwyr tân, cydnabuwyd nad dyma'r amser cywir i drosglwyddo'r gwaith hwn i ddiffoddwyr tân. Felly penderfynwyd parhau'r cynllun gyda gweithwyr ar delerau ac amodau Llyfr Gwyrdd (Cyd-gyngor Gwasanaethau Llywodraeth Leol – Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau Gwasanaeth) am un flwyddyn arall hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018.

12 Cafodd y prosiect ei gyflwyno i fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), a oedd yn awyddus i weld hyn yn parhau gan annog cyflwyno cais dan y cynllun "Caremore". Cafodd y cais ei ddatblygu a'i fonitro gan uwch reolwyr YGAC. Cafodd y swyddogion sicrwydd gan reolwyr YGAC fod hwn yn gais cryf, a chafodd ei gyflwyno ar ddiwedd Chwefror 2017.

13 Roedd yr amserlenni ar gyfer asesu'r cais hwnnw'n fwy helaeth nag yr oedd YGAC wedi'i awgrymu, ac yn y cyfamser roedd secondiad y gweithwyr a fu'n rhan o'r cynllun wedi dod i ben ac aethant yn ôl i'w swyddi blaenorol. Oherwydd yr oedi yn y broses gwneud cais, a'r awydd gryf i beidio â chael bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaethau, penderfynwyd recriwtio saith o bobl yn lle'r tîm gwreiddiol. Y bwriad, pan fyddai'r cais am grant yn llwyddiannus, oedd y byddai mwy o bobl yn cael eu recriwtio o restr aros i ymestyn y prosiect ledled Gogledd Cymru gyfan.

14 Cafodd aelodau newydd eu penodi i'r tîm, a hynny ar gytundebau cyfnod penodol o flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mai 2017. Maen nhw wedi cael eu hyfforddi ac wrthi'n darparu'r gwasanaeth yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn bennaf ond maen nhw hefyd wedi ymateb i ardaloedd pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

15 Yn anffodus, erbyn diwedd Mehefin 2017 cadarnhaodd YGAC na fu'r cynnig i "Caremore" yn llwyddiannus.

16 Cytunodd yr Aelodau yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2017 i barhau i ariannu'r cynllun treialu gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn os oes angen hyd at fis Ionawr 2018 a hynny wrth ymchwilio i gyfleoedd pellach am gyllid, gan gynnwys drwy Lywodraeth Cymru.

17 Hyd yma, talwyd costau'r tîm drwy danwariannau'n cael eu rheoli o fewn cyllidebau'r gwasanaeth, er bod y tanwariannau hyn yn gysylltiedig â chadw swyddogion gwag i staff cefnogol yn agored.

18 Yn Awst 2017, cafodd cais am arian grant ei gyflwyno i'r 'Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg' i ddarparu cymorth ar gyfer y cynllun treialu dros dair blynedd o fis Ebrill 2018 ymlaen. Byddai'r cais am gyllid o £600k yn darparu ymateb helaethach gan y tîm cymorth cymunedol ar gyfer ardaloedd pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru am y blynyddoedd 2018 i 2020. Byddai hyn yn caniatáu amser i'r cynllun treialu esblygu'n wasanaeth comisiynedig yn ystod y drydedd flwyddyn oherwydd byddai iechyd yn cael cyfle i ganfod ffynonellau cyllid ar gyfer y dyfodol. Disgwylir ymateb i'r cais hwn ddiwedd mis Rhagfyr.

19 Er mwyn cynnal gweithrediad y tîm cymorth cymunedol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae angen £40k.

20 Er mwyn cefnogi gweithrediad y tîm hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae cais pellach wedi cael ei wneud am gyllid 'llithriant' tan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol. Ar 5 Rhagfyr, cadarnhawyd bod £20k wedi ei roi ac rydyn ni'n aros i gael cadarnhad a allai rhagor o arian fod ar gael o'r ffynhonnell hon.

21 Os bydd y cais am arian grant a gyflwynwyd drwy'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn llwyddiannus ac nad oes rhagor o gymorth yn dod drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol, bydd angen i'r gwasanaeth dalu'r costau cyflog uchaf a'r costau cysylltiedig hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef £20k. Yn yr achos hwn, byddem yn ceisio ariannu'r prosiect o fewn y gyllideb gyfredol drwy danwariannau a reolir, ond os na fydd hyn yn bosibl argymhellir bod y costau'n cael eu tanategu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn hyd at ddiwedd mis Mawrth.

22 Os bydd y cais a gyflwynir drwy'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn aflwyddiannus, mae dau opsiwn.

Opsiwn 1. Gweithredu cynllun treialu'r Tîm Cymorth Cymunedol tan ddiwedd contractau cyfnod penodol y tîm, sy'n dod i ben ar 30 Mai 2018. Byddai'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â hyn yn £40K ynghyd ag uchafswm o gostau diswyddo posibl o £26k.

Opsiwn 2. Rhoi'r gorau i'r cynllun treialu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan wireddu'r costau o £20k fel y nodir uchod ynghyd ag uchafswm o gostau diswyddo posibl o £26K.

Er y bydden ni'n ceisio ariannu hyn drwy danwariannau a reolir, os na fydd hyn yn bosibl, argymhellir tanategu'r costau o'r cronfeydd wrth gefn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau tân ac achub mwy integredig, sy'n cyfrannu at yr agenda hybu iechyd yn ehangach. |
| Cyllideb | Byddai angen uchafswm o £20k hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol os bydd y cais i'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn llwyddiannus. Os na fydd y cais i'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn llwyddiannus, byddai uchafswm o £66k yn darparu refeniw a chostau diswyddo cysylltiedig y byddai eu hangen hyd at ddiwedd y contractau cyfnod penodol. |
| Cyfreithiol | Mae'r Tîm Cymorth Cymunedol yn wasanaeth anstatudol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| Staffio | Os bydd y cais i'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn aflwyddiannus, bydd contractau cyfnod penodol y 7 o weithwyr y tîm yn dod i ben ar 30 Mai 2018 neu'n gynt o bosibl, yn dibynnu ar benderfyniad yr ATA. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Drwy gytuno i danategu'r cynllun treialu hwn o'r gronfa gyffredinol wrth gefn, y risg yw ei fod, os oes ei angen, yn lleihau faint o arian sydd ar gael yn y gronfa wrth gefn i danategu'r gyllideb gyfan yn y blynyddoedd i ddod. |